

**Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru**  
**Rheoli Dogfennau**

<b>POLISI</b>	<i>Polisi Iaith Gymraeg</i>		
	<i>03 Chwefror 2022</i>	<b>DYDDIAD ADOLYGU</b>	<i>Ionawr 2023</i>
	<i>2.00</i>	<b>YN EIDDO I</b>	<i>Pennaeth Llywodraethu, Risg a Chydymffurfiaeth</i>
	<i>Gofynion statudol a chenhadaeth, gweledigaeth, strategaeth ac egwyddorion Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru i hwyluso a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg wrth gyflawni ei fusnes.</i>		
	<i>Polisi Cwynion am y Gymraeg</i>		
<b>DOGFENNAU CYSYLLTIEDIG</b>			

<b>CYMERADWYFYD GAN</b>	<i>Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg</i>	<b>DYDDIAD</b>	<i>13 Mehefin 2017</i>
<b>CYFRIFOLDEB DROS WEITHREDU A HYFFORDDIANT</b>	<i>Prif Weithredwr Cyfarwyddwr Gweithrediadau Rheolwyr Llinell</i>		
<b>Y BROSES ADOLYGU AC YMGYNGHORI</b>	<i>Yn flynyddol, neu os gwneir newidiadau i Ddeddf yr Iaith Gymraeg</i>		
<b>DOSBARTHU</b>	<i>E-bost, SharePoint, System HR Ar-lein (Adnoddau Dynol Pobl)</i> <i>Mae fersiwn Gymraeg o'r polisi ar gael yma (hyper link to be added).</i>		

**Diwygiadau**

<b>Dyddiad:</b>	<b>Awdur:</b>	<b>Description:</b>
Tachwedd 2021	Ian Bevan, Rheolwr Cydymffurfiaeth	Adolygiad o'r Polisi a wnaethpwyd gan yr Ymgynghorydd Iaith Gymraeg. Mân ddiwygiadau a wnaethpwyd (dolenni ac ati). Ailgyhoeddwyd.
Chwefror 2017	Gemma Bafico Rheolwr Gweithrediadau	Creu'r ddogfen gychwynnol



## POLISI IAITH GYMRAEG

### 1. *Pwrpas*

Mae'r ddogfen hon yn nodi Polisi Iaith Gymraeg Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru Cyf.

### 2. *Cwmpas*

Mae'r ddogfen Bolisi hon yn ymdrin â chefnidir y Polisi, y gofynion statudol, a chenhadaeth, gweledigaeth, strategaeth ac egwyddorion Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru i hwyluso a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg wrth gynnal ei fusnes.

Mae'r Polisi hwn hefyd yn cynnwys amlinelliad o'r gwasanaethau y gall ein rhanddeiliaid ddisgwyl iddynt fod ar gael yn Gymraeg.

Ein hymrwymiad Polisi yw sicrhau gwasanaethau o'r ansawdd gorau yn y Gymraeg, ac nad yw gwasanaethau Cymraeg yn llai ffafriol na'r rhai sydd ar gael yn Saesneg.

Mae'r Polisi hefyd yn amlinellu meysydd cyfrifoldeb, polisiâu a gweithdrefnau perthnasol, gweithdrefnau monitro ac adrodd, a materion gweithredol sy'n cefnogi'r Polisi hwn.

### 3. *Cyflwyniad*

Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn cydnabod bod gan y Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru ac na ddylid ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.<sup>1</sup> Dylai pobl yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg.<sup>2</sup>

Rydym yn croesawu'r ffaith bod gan siaradwyr Cymraeg hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg, ac rydym wedi ymrwmo i chwarae ein rhan fel corff cyhoeddus blaenllaw yng Nghymru i hwyluso ac annog defnyddio'r Gymraeg.

Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn darparu ei wasanaethau yn Gymraeg, ac rydym yn hyrwyddo ac yn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn ein holl waith ac yn annog pob siaradwr Cymraeg i ymgysylltu â ni yn eu dewis iaith.

---

<sup>1</sup> Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, y Goron.

<sup>2</sup> Llywodraeth Cymru (2012) Iaith Fyw: Iaith Byw, Hawlfraint y Goron.

Rydym yn sefydliad sy'n cefnogi ac yn annog mynediad at ein gwasanaethau, ac mae hyn yn cynnwys darparu gwasanaeth cyson o ansawdd uchel i'n partneriaid a'n rhanddeiliaid Cymraeg eu hiaith yn eu dewis iaith.

Mae ein delwedd a'n brand corfforaethol yn ddwyieithog a byddwn yn hyrwyddo Cymru, ac yn benodol y Gwyddorau Bywyd, yn rhyngwladol. Byddwn yn parhau i hyrwyddo'r Gwyddorau Bywyd yng Nghymru ac yn rhaglennu gwaith yn newis iaith ein partneriaid.

Gwelwn y polisi hwn fel rhan o ymrwymiad blaengar ac arloesol o fewn y gymuned Gwyddorau Bywyd i hwyluso a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg mewn Cymru ddwyieithog.

Mae'r Polisi hwn yn ceisio:

- Dathlu natur ddwyieithog Cymru;
- Amlinellu'r gofynion a'r cyd-destun statudol a sicrhau bod Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn cydymffurfio â'r gofynion a'r nodau hyn ar gyfer arferion gorau;
- Hwyluso a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru;
- Darparu'r egwyddorion rydym yn gweithredu o'u mewn i sicrhau bod Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn cynnig gwasanaeth o safon yn y Gymraeg;
- Codi ein proffil a'n henw da corfforaethol a chael ein cydnabod gan siaradwyr Cymraeg a di-Gymraeg fel ei gilydd (gan gynnwys yn rhyngwladol) fel enghraifft dda o sefydliad cyhoeddus yng Nghymru;
- Sicrhau hygyrchedd a mynediad ehangach a chryfhau ein hapêl yng Nghymru a thu hwnt
- Cryfhau ein gallu i fodloni gofynion ein partneriaid a gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg.

#### **4. *Cyd-destun Polisi Cenedlaethol a Statudol yr Iaith Gymraeg***

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011:

- Rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru;
- Sefydlu'r egwyddor na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;
- Sicrhau darpariaeth ar gyfer hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, a datblygu safonau sy'n ymwneud â'r Gymraeg.

Mae Safonau Gwasanaeth y Gymraeg a osodir ar Weinidogion Cymru yn eu Hysbysiad Cydymffurfio yn berthnasol i Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru. Mae'r adran briodol ar gael yn yr Hysbysiad Cydymffurfio ar wefan Comisiynydd y Gymraeg yn:

[Hysbysiad Cydymffurfio – Adran 44 Mesur y Gymraeg \(Cymru\) 2011](#)

Gweler Atodiad A am restr o'r Safonau Gwasanaeth y mae'n ofynnol i Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru gydymffurfio â nhw.

Yn ogystal â'r gofynion statudol, mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn croesawu strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg, *laith Fyw. laith Byw*. Mae'n datgan gweledigaeth Cymru ddwyieithog, lle mae'r Gymraeg yn iaith fyw a bywiog. Bydd Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn chwarae ei ran, fel corff cyhoeddus blaenllaw yng Nghymru, yn y gwaith o hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg a darparu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd, fel partneriaid, ymwelwyr a gweithwyr.

## **5. Datganiad Polisi ac Egwyddorion Sylfaenol Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru**

Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn parchu'r iaith Gymraeg a dewis iaith ei bartneriaid. Mae'r adran hon yn amlinellu Datganiad Polisi Iaith Gymraeg Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, a'r egwyddorion allweddol sylfaenol sy'n llywio ac yn cyfrannu at ein gwaith:

Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru wedi mabwysiadu'r egwyddor na fydd, wrth gynnal ei fusnes yng Nghymru, yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg fel ei bod yn briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol.

- Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn cydnabod bod gan y Gymraeg statws swyddogol o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011;
- Mae gan siaradwyr Cymraeg hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg, ac rydym wedi ymrwmo i hwyluso a hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg;
- Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru wedi ymrwmo i ddarparu gwasanaethau o safon yn Gymraeg, ac ni ddylid trin y rhain yn llai ffafriol na'r Saesneg;
- Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru wedi ymrwmo i ddarparu cyfleoedd sy'n annog ac yn hwyluso defnyddio'r Gymraeg;

- Nod Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yw mynd ati'n rhagweithiol i gynnig gwasanaethau yn newis iaith y cwsmer, gan gynnwys aelodau, partneriaid a'r cyhoedd;
- Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn mynnu bod pob contractwr neu drydydd parti sy'n darparu gwasanaethau ar ei ran yn cydymffurfio â'r Polisi hwn;
- Mae gennym ddyletswydd, fel corff cyhoeddus yng Nghymru ac a noddir gan Lywodraeth Cymru, i gydymffurfio â'r Safonau Gwasanaeth yn yr Hysbysiad Cydymffurfio a osodir ar Weinidogion Cymru gan Gomisiynydd y Gymraeg;
- Mae Cymru yn wlad ddwyieithog ac mae'r iaith Gymraeg yn rhan ganolog o'i diwylliant a'i threftadaeth gyfoethog. Mae cofleidio a hyrwyddo cymeriad ieithyddol Cymru yn rhan bwysig o'r pecyn ac mae ei phwynt gwerthu unigryw yn cael ei ddathlu yn ein rôl llysgenhadol o ran hyrwyddo Cymru i'r byd.
- Mae'r Gymraeg yn iaith fyw yng Nghymru, ac rydym yn cydnabod bod 20% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg a bod rhai o'n partneriaid a'n gweithwyr yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru.

## 6. Gwasanaethau

Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn darparu ystod eang o wasanaethau o safon uchel yn y Gymraeg. Dyma amlinelliad o'r gwasanaethau y gall rhywun y tu allan i'r sefydliad eu disgwyl:

- Cynigir pob gwasanaeth Cymraeg o'r un ansawdd â'r rhai a ddarperir yn Saesneg o ran cynnwys, fformat, amseru, canlyniadau ac ati;
- Ni fydd pobl dan anfantais mewn unrhyw ffordd drwy ddefnyddio'r Gymraeg yn eu hymwneud â Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru;
- Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn croesawu ac yn annog defnyddio'r Gymraeg, ac felly dylid sicrhau'r holl randdeiliaid bod croeso iddynt ymgysylltu â Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn Gymraeg. Ni fydd unrhyw ddewis iaith a gohebiaeth Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na'r Saesneg; a
- Bydd Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn cynnal cronfa ddata dewis iaith ac yn cyfeirio ati wrth asesu'r iaith ar gyfer darparu gwasanaethau i bartneriaid.

### 6.1 Gohebiaeth

Pan fydd Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn cael llythyr yn Gymraeg, bydd yr ateb hefyd yn Gymraeg ac ni fydd yn cymryd mwy o amser nag y byddai ateb Saesneg yn ei gymryd.

Wrth ddechrau gohebu, bydd Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn anfon llythyr Cymraeg a Saesneg oni bai ei fod yn gwybod y dewis iaith eisoes. Ar gyfer gohebiaeth safonol a anfonir at nifer o dderbynwyr ac i'w chylchredeg yn ehangach, bydd Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn cyhoeddi'r llythyr yn Gymraeg ac yn Saesneg. Gall pobl hefyd dderbyn gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg os mai dyna yw eu dymuniad.

Fel arfer, bydd atodiadau a dogfennau ategol sy'n gysylltiedig â gohebiaeth yn cael eu cyhoeddi yn iaith yr ohebiaeth; fodd bynnag, mae angen eu darllen ar y cyd ag adran dogfennau'r Hysbysiad Cydymffurfio (e.e. 40).

Bydd pob templed a deunydd gohebiaeth yn cydymffurfio â'r gofynion; bydd gohebiaeth fel llofnodion awtomatig e-bost, papur pennawd a negeseuon allan o'r swyddfa yn Gymraeg ac yn Saesneg, a bydd pob un yn cynnwys neges sy'n annog defnyddio'r Gymraeg.

## 6.2 Ffôn

Pan dderbynnir galwad ffôn i'r brif linell ffôn neu unrhyw linell ffôn uniongyrchol, bydd y galwr yn cael cyfarchiad dwyieithog. Bydd galwyr sy'n dymuno cael gwasanaeth Cymraeg yn cael ei drosglwyddo i siaradwr Cymraeg sy'n gallu derbyn yr alwad yn Gymraeg. Os nad oes siaradwr Cymraeg ar gael ar unwaith, bydd y gweithiwr yn egluro wrth y galwr pryd y bydd gwasanaeth Cymraeg ar gael (yn unol â Safon 17 yr Hysbysiad Cydymffurfio).

Pan fydd Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn cychwyn galwad ffôn, bydd gweithwyr yn cyfeirio at y gronfa ddata dewis iaith cyn ffonio i weld a yw dewis iaith yn cael ei gofnodi. Os nad yw'r dewis iaith yn hysbys ymlaen llaw, bydd Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn canfod beth yw'r dewis iaith wrth gychwyn yr alwad gyntaf.

Bydd yr holl beiriannau ateb a recordiadau awtomatig yn Gymraeg ac yn Saesneg.

## 6.3 Cyfarfodydd

Wrth wahodd un person i gyfarfod, bydd Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn canfod dewis iaith y sawl fydd yn bresennol ymlaen llaw. Pan fydd cyfarfod a gynhelir yn Gymraeg yn cael ei ffafrio, bydd Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn hwyluso hyn drwy naill ai staffio'r cyfarfod yn Gymraeg neu drwy drefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg.

Pan fydd Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn trefnu cyfarfodydd ar gyfer mwy nag un person, bydd dewis iaith pob unigolyn yn cael ei bennu ymlaen llaw. Os bydd o leiaf 10% o'r rhai sy'n bresennol yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, bydd Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn hwyluso defnyddio'r Gymraeg naill ai drwy staffio/gadeirio'r cyfarfod yn unol â hynny, neu drwy drefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. Bydd papurau'r cyfarfod ar gael yn Gymraeg.

Ar gyfer cyfarfodydd y tu allan i Gymru, nid yw'r dewis iaith Gymraeg yn berthnasol. Fodd bynnag, mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn cydnabod ac yn defnyddio'r Gymraeg yn rhyngwladol pan fydd cyfleoedd yn codi.

Ar gyfer digwyddiadau Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru (gwahoddedigion yn unig), bydd y dewis iaith yn cael ei gadarnhau ymlaen llaw a'i ddefnyddio i asesu a fydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu yn y digwyddiad.

Bydd gwahoddiadau i gyfarfodydd a digwyddiadau Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd yr holl ddeunyddiau PowerPoint a fydd yn cael eu creu gan yr Hwb yn Gymraeg ac yn Saesneg. Yn ogystal, bydd yr holl ddeunyddiau marchnata, gan gynnwys yr agenda, y pad nodiadau a'r beiros, ac ati, a'r arwyddion a arddangosir yn Gymraeg ac yn Saesneg. Gofynnir i'r holl siaradwyr gwadd ymlaen llaw beth yw eu dewis iaith i siarad/ateb cwestiynau yn Gymraeg.

Ar gyfer cyfarfodydd rheolaidd yn Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, e.e. cyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio, bydd dewis iaith yr aelodau'n cael ei bennu'n flynyddol a phan fydd aelodau newydd a chylch gorchwyl yn cael eu hadolygu.

Gofynnir i holl bartneriaid Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru pa wasanaethau maent yn dymuno eu cael yn Gymraeg, a bydd hyn yn cael ei gofnodi ar Gronfa Ddata Dewis Iaith Gymraeg a'i hadolygu'n rheolaidd.

Ar gyfer cyfarfodydd agored, lle nad yw'r rhai sy'n bresennol yn hysbys ymlaen llaw, bydd yr holl ddeunyddiau sy'n hysbysebu'r digwyddiad yn Gymraeg ac yn Saesneg a byddant yn nodi y bydd croeso i'r rhai sy'n bresennol ddefnyddio'r Gymraeg. Bydd Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod agored.

#### **6.4 Marchnata a Chyfathrebu**

Bydd hunaniaeth gorfforaethol a brand Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd pob logo a ddangosir yn cydymffurfio

â'r safonau. Bydd yr holl gardiau busnes a deunyddiau marchnata a gyhoeddir yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Bydd y defnydd o'r Gymraeg yn cael ei ystyried o'r cychwyn, wrth i ymgyrchoedd marchnata a chyhoeddusrwydd gael eu datblygu, er mwyn sicrhau bod unrhyw frandio, sloganau a negeseuon craidd yn gweithio'n dda yn Gymraeg.

Byddwn yn sicrhau bod gweithwyr Cymraeg eu hiaith sydd â'r cymwysterau priodol yn mynd i sioeau, arddangosfeydd a digwyddiadau tebyg pryd bynnag y bo hynny'n briodol, yn rhesymol ac yn gymesur. (Mae cymalau yn yr Hysbysiad Cydymffurfio sy'n ymwneud â gwaith y tu allan i Gymru).

Bydd yr holl wybodaeth a deunyddiau a arddangosir yn gyhoeddus yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ni fydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, e.e. fformat, maint, ansawdd a chywirdeb. Bydd y Gymraeg yn cael ei harddangos fel mai hi fydd yn cael ei darllen yn gyntaf.

Bydd unrhyw hysbysebion a roddir mewn papurau newydd Saesneg (neu ddeunyddiau tebyg) a ddsberthir yn bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru yn ddwyieithog neu'n ymddangos fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (gyda'r ddau fersiwn yn ymddangos ar yr un pryd ac yn gyfartal o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd).

Mewn cyhoeddiadau Cymraeg, bydd hysbysebion yn Gymraeg yn unig. Bydd hysbysebion teledu, sinema, rhynggrwyd a radio yn cael eu gwneud yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd ymgyrchoedd teledu sy'n ymddangos ar S4C yn Gymraeg. Bydd ymgyrchoedd radio a ddarllidir ar orsafoedd radio masnachol yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac yn Gymraeg yn ystod rhaglenni Cymraeg. Bydd defnyddio is-deitlau Cymraeg, neu ddybio hysbysebion i'r Gymraeg, yn cael ei osgoi (ac eithrio trosleisio).

## 6.5 Deunyddiau Ysgrifenedig

Bydd yr holl ddeunyddiau ysgrifenedig i'w defnyddio gan y cyhoedd, fel y'u rhestrir yn yr Hysbysiad Cydymffurfio (Safon 40-) yn Gymraeg. Ar gyfer Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, mae'r rhain yn cynnwys deunyddiau fel yr Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol, gwahoddiadau i gyfarfodydd a digwyddiadau, tystysgrifau, deunyddiau marchnata, briffiau ymchwil, arolygon a datganiadau i'r wasg.

Bydd pob datganiad i'r wasg yn cael ei gyhoeddi yn Gymraeg, ac ar yr un pryd â fersiynau Saesneg.

Bydd pob ffurflen i'w llenwi gan y cyhoedd yn Gymraeg. Os cyhoeddir ffurflenni ar wahân yn Gymraeg ac yn Saesneg, bydd y ffurflen Saesneg yn datgan bod ffurflen Gymraeg ar gael a bod Hwb Gwyddorau Bywyd



Cymru yn annog pobl i lenwi'r ffurflen yn Gymraeg. Ni fydd y rhai sy'n llenwi'r ffurflen yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na'r rhai sy'n llenwi'r ffurflen yn Saesneg.

Bydd yr holl dempledi safonol i'w defnyddio gan y cyhoedd yn cael eu llunio yn Gymraeg, h.y. templedi anfonebau.

Gwneir pob ymdrech i lunio deunyddiau'n ddwyieithog h.y. yn Gymraeg ac yn Saesneg mewn un fersiwn ac yn unol â chanllawiau arfer gorau ar ddylunio dwyieithog. Pan fydd yn rhaid cyhoeddi fersiynau ar wahân, bydd y ddau fersiwn yn gyfartal o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd. Bydd y ddau fersiwn ar gael ar yr un pryd a byddant yr un mor hygyrch, a bydd y fersiwn Saesneg yn datgan bod fersiwn Cymraeg ar gael.

## 6.6 Wefan, Cyfryngau Cymdeithasol a Chyfryngau Digidol

Ni fydd y cynnwys Cymraeg yn llai ffafriol na'r cynnwys Saesneg ar wefan Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru. Bydd y testun ar bob tudalen ar y wefan yn Gymraeg, a bydd pob tudalen Gymraeg yn gweithredu'n llawn. Mae botwm Cymraeg ar gael ar bob tudalen Saesneg o'r wefan i ddynodi bod safle Cymraeg ar gael a bod llywio ar lefel tudalen ar gael i'w ddefnyddio'n rhwydd. Mae pob safle cyfryngau cymdeithasol ar gael yn Gymraeg e.e. Facebook a Twitter.

Bydd yr holl ddeunydd sy'n cael ei greu gan yr Hwb yn cael ei lunio yn Gymraeg ar gyfer y wefan a'r cyfryngau cymdeithasol a bydd yr Hwb yn mynd ati'n frwd i annog partneriaid a chyfranwyr i ddefnyddio'r Gymraeg er mwyn sicrhau bod y profiad yn y ddwy iaith yn gyfartal.

Bydd dewis iaith yn cael ei gynnig ar ddechrau deunyddiau digidol y mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn eu cynhyrchu, fel apiau, cynnwys arlein a DVDs.

## 6.7 Arwyddion

Wrth arddangos arwyddion (dros dro neu barhaol) yn swyddfa Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru ac mewn digwyddiadau a drefnir gan Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, bydd yr arwyddion yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac yn cael eu dangos i'w darllen yn Gymraeg yn gyntaf. Rhaid i arwyddion beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg e.e. o ran amlygrwydd, eglurder, maint a ffont a rhaid iddynt fod yn gywir.

Bydd y dderbynfa yn arddangos arwydd yn nodi bod gwasanaethau Cymraeg ar gael. Bydd cyflogeion sydd â'r lefel berthnasol o sgiliau iaith Gymraeg, ac sy'n gallu darparu gwasanaethau yn Gymraeg, yn gwisgo'r bathodyn Cymraeg i ddangos bod gwasanaethau ar gael yn Gymraeg.

Mae ymrwymiadau Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru wedi'u cyfyngu i weithgareddau yng Nghymru.

## **7. Cynllun Gweithredu**

Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau o'r ansawdd gorau yn y Gymraeg ac i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg (Safonau Gwasanaeth). Mae'r Polisi hwn yn nodi ymrwymiad ac egwyddorion Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru ac felly mae'n ddogfen weledigaethol ac yn ddatganiad o uchelgais.

Cynhaliodd Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru archwiliad o'i wasanaethau presennol yn 2016-17 ac, yng ngoleuni'r prosiect hwnnw, mae'n cydnabod bod ganddo rywfaint o waith i'w wneud i wella ei berfformiad presennol.

Mae Cynllun Gweithredu cynhwysfawr ar waith i gefnogi'r Hwb i wireddu ei uchelgais. Mae'r cynllun gweithredu'n cael ei roi ar waith ar draws yr Hwb er mwyn gwella perfformiad, a galluogi Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru i fod yn sefydliad y mae'n anelu ato o ran y Gymraeg.

## **8. Gweithred**

Yn ogystal â'r Cynllun Gweithredu a drafodir uchod, mae materion gweithredol allweddol a fydd yn cefnogi gweithrediad y Polisi Iaith Gymraeg.

Darperir cefnogaeth, arweiniad a hyfforddiant i weithwyr ar faterion yn ymwneud â'r Gymraeg.

### **8.1 Hyfforddiant ac Arweiniad**

Darperir hyfforddiant i bob gweithiwr newydd i sicrhau eu bod yn cael gwybod am y gofynion cyfreithiol ac yn ymwybodol o'r Polisi Iaith Gymraeg.

Bydd yr holl weithwyr yn cael eu hyfforddi mewn gofynion Polisi a chyfreithiol a bydd nodiadau canllaw ychwanegol ar gael i gefnogi pynciau allweddol (e.e. y tu allan i'r swyddfa, dewis iaith, cyfarch ar y ffôn, cynnal cyfarfodydd).

Bydd hyfforddiant iaith hefyd ar gael i weithwyr yn ystod oriau swyddfa, a bydd Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn ysgwyddo'r gost am hynny. Bydd y ddarpariaeth yn cael ei phennu yn unol â Strategaeth Sgiliau Iaith Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru.

## 8.2 Adnoddau

Bydd Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn darparu adnoddau addas i gefnogi gweithwyr sy'n gweithio yn Gymraeg, gan gynnwys cyfleusterau technoleg gwybodaeth, gwasanaethau canolog ac adnoddau dynol:

### 8.2.1 Technoleg Gwybodaeth

- Er mwyn helpu gweithwyr i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg, bydd geiriaduron ar-lein fel <https://geiriadwr.uwtsd.ac.uk/> ar gael yn rhwydd a bydd gwirydd sillafu Cysill ar gael, yn ogystal â rhaglenni Microsoft yn Gymraeg (e.e. Word, Outlook, ac ati);
- Wrth gynllunio neu ailddatblygu gwefannau neu unrhyw wasanaeth Technoleg Gwybodaeth arall, bydd Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn ystyried canllawiau Comisiynydd y Gymraeg: *Technoleg, Gwefannau a Meddalwedd: Ystyried y Gymraeg*
- .

### 8.2.2 Adnoddau Dynol

- Cynhelir archwiliad o sgiliau iaith Gymraeg gweithwyr presennol o bryd i'w gilydd er mwyn sefydlu gwaelodlin ar gyfer pennu Strategaeth Sgiliau Dwyieithog;
- Bydd prosesau'n cael eu datblygu i ganfod pa swyddi sy'n gofyn am sgiliau iaith Gymraeg a bydd yr asesiadau hyn yn cael eu gweithredu'n briodol at ddibenion recriwtio a hyfforddi;
- Pan fydd swyddi newydd yn cael eu creu neu pan fydd swyddi'n dod yn wag ac yn cael eu hysbysebu, fe'u hadolygir i sefydlu a oes angen busnes i'r swydd fod â sgiliau yn y Gymraeg. Bydd yr Hwb yn cyfeirio at Ganllawiau Comisiynydd y Gymraeg ar asesiadau a recriwtio o'r fath; a
- Bydd Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn parhau i ymdrechu i recriwtio digon o weithwyr sy'n gymwys yn Gymraeg, yn enwedig ar gyfer yr ardaloedd hynny lle gellir disgwyl cyswllt rheolaidd ag aelodau o'r cyhoedd.

### 8.2.3 Cyfieithu

- Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn contractio gwasanaethau cyfieithu ysgrifenedig ar sail anghenion yn unol â Pholisi Caffael, Cytundeb Fframwaith Interim a Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru; ac
- Nod Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yw caffael gwasanaeth ar gyfer cyfieithu ar y pryd pan fydd angen gwneud hynny (e.e. cynadleddau wyneb yn wyneb ac ar-lein).

## 9. **Cyfrifoldebau**

Mae gan bob gweithiwr gyfrifoldeb i sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o'r Polisi Iaith Gymraeg a'r gofynion cyfreithiol sy'n berthnasol i Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru a'u rolau.

Rhaid i bob rheolwr sy'n gyfrifol am weithwyr newydd ac sy'n cynnal sesiynau cynefino sicrhau eu bod yn rhoi gwybod i weithwyr am eu dyletswyddau sy'n berthnasol i'r polisi hwn a'r Safonau.

Mae pob pennaeth adran a rheolwr llinell yn gyfrifol am sicrhau bod y polisi hwn yn cael ei weithredu'n effeithiol o fewn eu maes/meysydd cyfrifoldeb.

Bydd polisi a strategaeth yn sicrhau bod anghenion siaradwyr Cymraeg yn cael eu hystyried ym mhob agwedd ar benderfyniadau polisi. Bydd pob polisi a phroses newydd yn destun Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ac felly bydd angen ystyried gofynion y Gymraeg.

Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg sy'n bennaf gyfrifol am gydymffurfiaid corfforaethol â'r gofynion cyfreithiol. Y Cyfarwyddwr Gweithrediadau sy'n gyfrifol am y gwaith o ddydd i ddydd.

## 10. **Monitro, Adrodd, Gwerthuso a Dysgu**

- Mae cynllun clir mewn lle ar gyfer gweithredu'r Polisi.
- Bydd y Polisi a'r cynllun gweithredu yn cael eu monitro'n rheolaidd gan y Cyfarwyddwr Gweithrediadau a fydd yn adrodd yn rheolaidd i'r Bwrdd ar berfformiad.
- Bydd adroddiad blynyddol yn cael ei baratoi ar y broses o'i weithredu a'i gyflwyno i'r Bwrdd.
- Bydd data'n cael ei gasglu drwy gydol y flwyddyn i fonitro cynnydd parhaus ac i gyfrannu at wella ansawdd a dysgu corfforaethol yn barhaus. Bydd casglu data o'r fath yn cynnwys nifer y cwynion a

dderbyniwyd ac yr ymchwiliwyd iddynt, nifer a chanran y swyddi a hysbysebwyd gyda gofynion sgiliau iaith Gymraeg, nifer a chanran y cyflogeion â sgiliau iaith Gymraeg, canran y datganiadau i'r wasg a ryddhawyd ar yr un pryd yn Gymraeg ac yn Saesneg, a chanran yr aelodau sy'n llenwi ffurflenni Cymraeg a chofnodi dewis iaith Gymraeg ar y gronfa ddata.

- Bydd yr holl fonitro ac adrodd yn sail i welliant parhaus a gwella'r gwasanaethau y mae'r Hwb yn eu darparu i bobl.

## 11. Cwynion

Mae gan Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru Bolisi Cwynion iaith Gymraeg. Mae ei drefn gwyno wedi ymrwmo i ddelio â chwynion yn gadarnhaol ac yn gyflym er mwyn datrys unrhyw broblemau a gwella gwasanaethau'n gyffredinol.

Mae pob cwyn yn cael ei hadrodd i Fwrdd Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru a bydd y rheini sy'n berthnasol i'r Safonau yn cael eu hadrodd i Lywodraeth Cymru. Bydd camau'n cael eu cymryd yn unol â Pholisi Cwynion Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru.

## 12. Gweithdrefnau Polisi

### 12.1 Manylion Cyswllt

Dylid anfon pob ymholiad sy'n ymwneud â'r Polisi hwn at [hello@lifescienceshubwales.com](mailto:hello@lifescienceshubwales.com) yn y lle cyntaf.

### 12.2 Adolygu'r Polisi

Adolygir y Polisi hwn a'r broses o'i weithredu ar lefel Bwrdd yn flynyddol a gwneir gwelliannau fel y bo'n briodol.

### 12.3 Cwynion ac Awgrymiadau ar gyfer Gwella

Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn croesawu awgrymiadau gan y cyhoedd a gweithwyr ar gyfer gwella ei Bolisi iaith Gymraeg a'i wasanaeth Cymraeg a bydd y rhain yn cael eu hystyried yn llawn ac yn yr ysbryd o ddymuno gwella'n barhaus.

Dylid cyfeirio cwynion sy'n ymwneud â'r Polisi hwn neu awgrymiadau ar gyfer gwella at: Y Cyfarwyddwr/Prif Weithredwr.



#### **12.4 Cydymffurfiaeth Weithredol**

Y Cadeirydd sy'n gyfrifol am y Polisi a'r Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am gydymffurfiaeth weithredol, gyda'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau yn gyfrifol am ddirprwyo o ddydd i ddydd.

**ATODIAD A: Safonau'r Gymraeg – Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru**  
**APPENDIX A: Welsh Language Standards – Life Sciences Hub Wales**

Rhif Safon	Dosbarth o Safon	Safon	Class of Standard	Standard
1	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn cael unrhyw ohebiaeth yn Gymraeg oddi wrth berson, rhaid ichi ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb), oni bai bod y person wedi dweud nad oes angen ateb yn Gymraeg.	Service Delivery	If you receive correspondence from a person in Welsh you must reply in Welsh (if an answer is required), unless the person has indicated that there is no need to reply in Welsh.
2	Cyflenwi Gwasanaethau	<p>Pan fyddwch yn gohebu ag unigolyn ('A') am y tro cyntaf, rhaid ichi ofyn i A a yw'n dymuno cael gohebiaeth oddi wrthyh yn Gymraeg, ac os yw A yn ymateb i ddweud ei fod yn dymuno hynny rhaid ichi -</p> <p>(a) cadw cofnod o ddymuniad A,  (b) gohebu yn Gymraeg ag A wrth ohebu ag A o hynny ymlaen, ac  (c) anfon unrhyw ffurflenni y byddwch yn eu hanfon at A o hynny ymlaen yn Gymraeg.</p> <p><b>Rhaid cydymffurfio â safon 2 ymhob amgylchiad, ac eithrio:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ pan fo unigolyn ('A') wedi ei leoli tu allan i Gymru.</li> </ul>	Service Delivery	<p>When you correspond with an individual ('A') for the first time, you must ask A whether A wishes to receive correspondence from you in Welsh, and if A responds to say that A wishes to receive correspondence in Welsh you must -</p> <p>(a) keep a record of A's wish,  (b) correspond with A in Welsh when corresponding with A from then onwards, and  (c) send any forms you send to A from then onwards in Welsh.</p> <p><b>You must comply with standard 2 in every circumstance, except:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ where the individual ('A') is located outside Wales.</li> </ul>

3	Cyflenwi Gwasanaethau	<p>Pan fyddwch yn anfon gohebiaeth a gyfeirir at ddau unigolyn sy'n aelodau o'r un aelwyd (er enghraifft, rhieni plentyn) am y tro cyntaf, rhaid ichi ofyn i'r unigolion hynny a ydynt yn dymuno cael gohebiaeth oddi wrthy ch yn Gymraeg, ac os -</p> <p>(a) yw'r ddau unigolyn yn ymateb i ddweud eu bod yn dymuno hynny, rhaid ichi gadw cofnod o'u dymuniad, a gohebu yn Gymraeg o hynny ymlaen pan fyddwch yn anfon gohebiaeth a gyfeirir at y ddau unigolyn hynny;</p> <p>(b) yw un o'r unigolion (ond nid y ddau) yn ymateb i ddweud ei fod yn dymuno hynny, rhaid ichi gadw cofnod o'i ddymuniad, a darparu fersiwn Gymraeg o ohebiaeth o hynny ymlaen pan fyddwch yn anfon gohebiaeth a gyfeirir at y ddau unigolyn hynny.</p> <p><b>Rhaid cydymffurfio â safon 3 ymhob amgylchiad, ac eithrio:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ pan fo'r unigolion wedi eu lleoli tu allan i Gymru.</li> </ul>	Service Delivery	<p>When you send correspondence addressed to two individuals who are members of the same household (for example, the parents of a child) for the first time, you must ask them whether they wish to receive correspondence from you in Welsh; and if -</p> <p>(a) both individuals respond to say that they wish to receive correspondence in Welsh, you must keep a record of that wish and correspond in Welsh from then onwards when sending correspondence addressed to both of those individuals;</p> <p>(b) one (but not both) of the individuals responds to say that he or she wishes to receive correspondence in Welsh, you must keep a record of that wish and provide a Welsh language version of correspondence from then onwards when sending correspondence addressed to both of those individuals.</p> <p><b>You must comply with standard 3 in every circumstance, except:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ where the individuals are located outside Wales.</li> </ul>
4	Cyflenwi Gwasanaethau	<p>Pan fyddwch yn anfon yr un ohebiaeth at nifer o bersonau, rhaid ichi anfon fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth ar yr un pryd ag y byddwch yn anfon unrhyw fersiwn Saesneg ohoni.</p>	Service Delivery	<p>When you send the same correspondence to several persons, you must send a Welsh language version of the correspondence at the same time as you send any English language version.</p>



		<p><b>Rhaid cydymffurfio â safon 4 ymhob amgylchiad, ac eithrio:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ pan fo'r personau wedi eu lleoli tu allan i Gymru yn unig.</li> </ul>		<p><b>You must comply with standard 4 in every circumstance, except:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ where those persons are located outside Wales only.</li> </ul>
5	Cyflenwi Gwasanaethau	<p>Os nad ydych yn gwybod a yw person yn dymuno cael gohebiaeth oddi wrthyich yn Gymraeg rhaid ichi ddarparu fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth pan fyddwch yn gohebu â'r person hwnnw.</p> <p><b>Rhaid cydymffurfio â safon 5 ymhob amgylchiad, ac eithrio:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ pan fo'r person wedi ei leoli tu allan i Gymru yn unig.</li> </ul>	Service Delivery	<p>If you don't know whether a person wishes to receive correspondence from you in Welsh, when you correspond with that person you must provide a Welsh language version of the correspondence.</p> <p><b>You must comply with standard 5 in every circumstance, except:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ where that person is located outside Wales only.</li> </ul>
6	Cyflenwi Gwasanaethau	<p>Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg gyfatebol o ohebiaeth, rhaid ichi beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg (er enghraifft, os yw'r fersiwn Saesneg wedi ei llofnodi, neu os oes manylion cyswllt wedi eu darparu ar y fersiwn Saesneg, rhaid i'r fersiwn Gymraeg gael ei thrin yn yr un modd).</p>	Service Delivery	<p>If you produce a Welsh language version and a corresponding English language version of correspondence, you must not treat the Welsh language version less favourably than the English language version (for example, if the English version is signed, or if contact details are provided on the English version, then the Welsh version must be treated in the same way).</p>
7	Cyflenwi Gwasanaethau	<p>Rhaid ichi ddatgan -</p> <p>(a) mewn gohebiaeth, a</p> <p>(b) mewn cyhoeddiadau a hysbysiadau swyddogol sy'n gwahodd personau i anfon ymateb neu i anfon gohebiaeth atoch,</p>	Service Delivery	<p>You must state -</p> <p>(a) in correspondence, and</p> <p>(b) in publications and official notices that invite persons to respond to you or to correspond with you,</p>

		<p>eich bod yn croesawu cael gohebiaeth yn Gymraeg, y byddwch yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg, ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.</p> <p><b>Rhaid cydymffurfio â safon 7 ymhob amgylchiad, ac eithrio:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ <b>pan fo'r ohebiaeth, cyhoeddiad neu hysbysiad swyddogol yn cael ei anfon tu allan i Gymru yn unig.</b></li> </ul>		<p>that you welcome receiving correspondence in Welsh, that you will respond to any correspondence in Welsh, and that corresponding in Welsh will not lead to delay.</p> <p><b>You must comply with standard 7 in every circumstance, except:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ <b>where the correspondence, publication or official notice is sent outside Wales only.</b></li> </ul>
8	Cyflenwi Gwasanaethau	<p>Pan fydd person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi gyfarch y person yn Gymraeg.</p>	Service Delivery	<p>When a person contacts you on your main telephone number (or numbers), or on any helpline numbers or call centre numbers, you must greet the person in Welsh.</p>
9	Cyflenwi Gwasanaethau	<p>Pan fydd person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi roi gwybod i'r person bod gwasanaeth Cymraeg ar gael.</p>	Service Delivery	<p>When a person contacts you on your main telephone number (or numbers), or on any helpline numbers or call centre numbers, you must inform the person that a Welsh language service is available.</p>
10	Cyflenwi Gwasanaethau	<p>Pan fo person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi ddelio â'r alwad yn Gymraeg yn ei chyfanrwydd os yw'r person yn dymuno hynny (gan</p>	Service Delivery	<p>When a person contacts you on your main telephone number (or numbers), or on any helpline numbers or call centre numbers, you must deal with the call in Welsh in its entirety if that is the person's wish (where necessary by transferring the call to a</p>

		drosglwyddo'r alwad i aelod o staff sy'n gallu delio â'r alwad yn Gymraeg os yw hynny'n angenrheidiol).		member of staff who is able to deal with the call in Welsh).
12	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn hysbysebu rhifau ffôn, llinellau cymorth neu wasanaethau canolfannau galwadau, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Service Delivery	When you advertise telephone numbers, helpline numbers or call centre services, you must not treat the Welsh language less favourably than the English language.
13	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn cynnig gwasanaeth Cymraeg ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid i rif ffôn y gwasanaeth Cymraeg fod yr un peth â rhif ffôn y gwasanaeth Saesneg cyfatebol.	Service Delivery	If you offer a Welsh language service on your main telephone number (or numbers), on any helpline numbers or call centre numbers, the telephone number for the Welsh language service must be the same as for the corresponding English language service.
14	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn cyhoeddi eich prif rif ffôn, neu unrhyw rifau sydd gennych ar gyfer llinellau cymorth neu wasanaethau canolfannau galwadau, rhaid ichi nodi (yn Gymraeg) eich bod yn croesawu galwadau yn Gymraeg.	Service Delivery	When you publish your main telephone number, or any helpline numbers or call centre service numbers, you must state (in Welsh) that you welcome calls in Welsh.
15	Cyflenwi Gwasanaethau	Os oes gennych ddangosyddion perfformiad ar gyfer delio â galwadau ffôn, rhaid ichi sicrhau nad yw'r dangosyddion perfformiad hynny yn trin galwadau ffôn a wneir yn Gymraeg yn llai ffafriol na galwadau a wneir yn Saesneg.	Service Delivery	If you have performance indicators for dealing with telephone calls, you must ensure that those performance indicators do not treat telephone calls made in Welsh any less favourably than calls made in English.

16	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i'ch prif wasanaeth (neu wasanaethau) ateb galwadau ffôn roi gwybod i bersonau sy'n galw, yn Gymraeg, fod modd gadael neges yn Gymraeg.	Service Delivery	Your main telephone call answering service (or services) must inform persons calling, in Welsh, that they can leave a message in Welsh.
17	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan na fo gwasanaeth Cymraeg ar gael ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi roi gwybod i'r personau sy'n galw (pa un ai drwy gyfrwng neges wedi ei hawtomeiddio neu fel arall) pryd y bydd gwasanaeth Cymraeg ar gael.	Service Delivery	When there is no Welsh language service available on your main telephone number (or numbers), or any helpline numbers or call centre numbers, you must inform persons calling, in Welsh (by way of an automated message or otherwise), when a Welsh language service will be available.
18	Cyflenwi Gwasanaethau	Os bydd person yn cysylltu ag un o'ch adrannau ar rif ffôn llinell uniongyrchol (gan gynnwys ar rifau llinell uniongyrchol aelodau staff), a bod y person hwnnw'n dymuno cael gwasanaeth Cymraeg, rhaid ichi ddarparu'r gwasanaeth hwnnw yn Gymraeg yn ei gyfanrwydd (os yw'n angenrheidiol drwy drosglwyddo'r alwad i aelod o staff sy'n gallu delio â'r alwad yn Gymraeg).	Service Delivery	If a person contacts one of your departments on a direct line telephone number (including on staff members' direct line numbers), and that person wishes to receive a service in Welsh, you must provide that service in Welsh in its entirety (if necessary by transferring the call to a member of staff who is able to deal with the call in Welsh).
20	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fydd person yn cysylltu â chi ar rif llinell uniongyrchol (pa un ai ar rif llinell uniongyrchol adran neu ar rif llinell uniongyrchol aelod o staff), rhaid ichi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin	Service Delivery	When a person contacts you on a direct line number (whether on a department's direct line number or on the direct line number of a member of staff), you must ensure that, when greeting the

		yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth gyfarch y person.		person, the Welsh language is not treated less favourably than the English language.
21	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn ffonio unigolyn ('A') am y tro cyntaf, rhaid ichi ofyn i A a yw'n dymuno cael galwadau ffôn oddi wrthyh yn Gymraeg; ac os yw A yn ymateb i ddweud ei fod yn dymuno hynny, rhaid ichi gadw cofnod o'i ddymuniad, a chynnal galwadau ffôn a wneir i A o hynny ymlaen yn Gymraeg.	Service Delivery	When you telephone an individual ('A') for the first time you must ask A whether A wishes to receive telephone calls from you in Welsh, and if A responds to say that A wishes to receive telephone calls in Welsh you must keep a record of that wish, and conduct telephone calls made to A from then onwards in Welsh.
22	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i unrhyw system ffôn wedi ei hawtomeiddio sydd gennych ddarparu'r gwasanaeth cyfan wedi ei awtomeiddio yn Gymraeg.	Service Delivery	Any automated telephone systems that you have must provide the complete automated service in Welsh.
24	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn gwahodd un person ('P') yn unig i gyfarfod, rhaid ichi ofyn i P a fyddai'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, a hysbysu P y byddwch, os oes angen, yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwinnw.	Service Delivery	If you invite one person only ('P') to a meeting you must ask P whether P wishes to use the Welsh language at the meeting, and inform P that you will, if necessary, provide a translation service from Welsh to English for that purpose.
24A	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch wedi gwahodd un person ('P') yn unig i gyfarfod, a bod P wedi eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod	Service Delivery	If you have invited one person only ('P') to a meeting and P has informed you that P wishes to use the Welsh language at the meeting, you must arrange for a simultaneous translation service from Welsh to English to be available at the meeting

		<p>(os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu).</p> <p><b>Rhaid cydymffurfio â safon 24A ymhob amgylchiad, ac eithrio:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ pan fo person gwahoddedig P a'r cyfarfod wedi eu lleoli tu allan i Gymru.</li> </ul>		<p>(unless you conduct the meeting in Welsh without the assistance of a translation service).</p> <p><b>You must comply with standard 24A in every circumstance, except:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ where that invited person is located outside Wales.</li> </ul>
26	Cyflenwi Gwasanaethau	<p>Os byddwch yn gwahodd unigolyn ('A') i gyfarfod, a bod y cyfarfod yn ymwneud â llesiant A, rhaid ichi ofyn i A a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, a hysbysu A y byddwch, os oes angen, yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg at y diben hwnnw.</p> <p><b>Rhaid cydymffurfio â safon 26 ymhob amgylchiad, ac eithrio:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ pan fo unigolyn ('A') a'r cyfarfod wedi eu lleoli tu allan i Gymru.</li> </ul>	Service Delivery	<p>If you invite an individual ('A') to a meeting, and the meeting relates to the wellbeing of A, you must ask A whether A wishes to use the Welsh language at the meeting, and inform A that you will, if necessary, provide a translation service from Welsh to English and from English to Welsh for that purpose.</p> <p><b>You must comply with standard 26 in every circumstance, except:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ where the individual ('A') and the meeting are located outside Wales.</li> </ul>
26A	Cyflenwi Gwasanaethau	<p>Rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg ar gael mewn cyfarfod-</p> <p>(a) os yw'r cyfarfod yn ymwneud â llesiant unigolyn ('A') a wahoddwyd, a</p> <p>(b) os yw A wedi eich hysbysu ei fod yn</p>	Service Delivery	<p>You must arrange for a simultaneous translation service from Welsh to English and from English to Welsh to be available at a meeting -</p> <p>(a) if the meeting relates to the wellbeing of an invited individual ('A'), and</p> <p>(b) if A has informed you that A wishes to use the Welsh language at the meeting; unless you conduct</p>

		<p>dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod; os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu.</p> <p><b>Rhaid cydymffurfio â safon 26A ymhob amgylchiad, ac eithrio:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ pan fo unigolyn ('A') a'r cyfarfod wedi eu lleoli tu allan i Gymru.</li> </ul>		<p>the meeting in Welsh without the assistance of a translation service.</p> <p><b>You must comply with standard 26A in every circumstance, except:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ where the individual ('A') and the meeting is located outside Wales.</li> </ul>
27	Cyflenwi Gwasanaethau	<p>Os byddwch yn gwahodd mwy nag un person i gyfarfod (nad yw'n ymwneud â llesiant un neu ragor o'r unigolion a wahoddir), rhaid ichi ofyn i bob person a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod.</p> <p><b>Rhaid cydymffurfio â safon 27 ymhob amgylchiad, ac eithrio:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ pan fo'r personau gwahoddedig a'r cyfarfod wedi eu lleoli tu allan i Gymru.</li> </ul>	Service Delivery	<p>If you invite more than one person to a meeting (which does not relate to the wellbeing of one or more of the individuals invited), you must ask each person whether they wish to use the Welsh language at the meeting.</p> <p><b>You must comply with standard 27 in every circumstance, except:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ where those invited persons and the meeting are located outside Wales.</li> </ul>
27A	Cyflenwi Gwasanaethau	<p>Os byddwch wedi gwahodd mwy nag un person i gyfarfod (nad yw'n ymwneud â llesiant un neu ragor o'r unigolion a wahoddir), a bod o leiaf 10% (ond llai na 100%) o'r gwahoddedigion wedi eich hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi drefnu</p>	Service Delivery	<p>If you have invited more than one person to a meeting (which does not relate to the wellbeing of one or more of the individuals invited), and at least 10% (but less than 100%) of the persons invited have informed you that they wish to use the Welsh language at the meeting, you must arrange for a</p>

		<p>bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod.</p> <p><b>Rhaid cydymffurfio â safon 27A ymhob amgylchiad, ac eithrio:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ pan fo'r personau gwahoddedig a'r cyfarfod wedi eu lleoli tu allan i Gymru.</li> </ul>		<p>simultaneous translation service from Welsh to English to be available at the meeting.</p> <p><b>You must comply with standard 27A in every circumstance, except:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ where those invited persons and the meeting are located outside Wales.</li> </ul>
27D	Cyflenwi Gwasanaethau	<p>Os byddwch wedi gwahodd mwy nag un person i gyfarfod (nad yw'n ymwneud â llesiant un neu ragor o'r unigolion a wahoddir), a bod pawb a gafodd wahoddiad wedi eich hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod (os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu).</p> <p><b>Rhaid cydymffurfio â safon 27D ymhob amgylchiad, ac eithrio:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ pan fo'r personau gwahoddedig a'r cyfarfod wedi eu lleoli tu allan i Gymru.</li> </ul>	Service Delivery	<p>If you have invited more than one person to a meeting (which does not relate to the wellbeing of one or more of the individuals invited), and all of the persons invited have informed you that they wish to use the Welsh language at the meeting, you must arrange for a simultaneous translation service from Welsh to English to be available at the meeting (unless you conduct the meeting in Welsh without the assistance of a translation service).</p> <p><b>You must comply with standard 27D in every circumstance, except:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ where those invited persons and the meeting are located outside Wales.</li> </ul>
29	Cyflenwi Gwasanaethau	<p>Os byddwch yn gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, a bod y cyfarfod hwnnw yn ymwneud â llesiant un neu ragor o'r unigolion a wahoddwyd, rhaid ichi -</p>	Service Delivery	<p>If you invite more than one person to a meeting, and that meeting relates to the wellbeing of one or more of the individuals invited, you must -</p> <p>(a) ask that individual or each of those individuals</p>



		<p>(a) gofyn i'r unigolyn hwnnw neu i bob un o'r unigolion hynny a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, a</p> <p>(b) hysbysu'r unigolyn (neu'r unigolion hynny) y byddwch, os oes angen, yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg at y diben hwnnw.</p> <p><b>Rhaid cydymffurfio â safon 29 ymhob amgylchiad, ac eithrio:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ pan fo'r personau gwahoddedig a'r cyfarfod wedi eu lleoli tu allan i Gymru.</li> </ul>		<p>whether he or she wishes to use the Welsh language at the meeting, and</p> <p>(b) inform that individual (or those individuals) that, if necessary, you will provide a translation service from Welsh to English and from English to Welsh for that purpose.</p> <p><b>You must comply with standard 29 in every circumstance, except:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ where those invited persons and the meeting are located outside Wales.</li> </ul>
29A	Cyflenwi Gwasanaethau	<p>Rhaid ichi ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg mewn cyfarfod -</p> <p>(a) os ydych wedi gwahodd mwy nag un person i'r cyfarfod,</p> <p>(b) os yw'r cyfarfod yn ymwneud â llesiant un neu ragor o'r unigolion a wahoddwyd, ac</p> <p>(c) os oes o leiaf un o'r unigolion hynny wedi eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod; os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu.</p>	Service Delivery	<p>You must provide a simultaneous translation service from Welsh to English and from English to Welsh at a meeting -</p> <p>(a) if you have invited more than one person to the meeting,</p> <p>(b) if the meeting relates to the wellbeing of one or more of the individuals invited, and</p> <p>(c) if at least one of those individuals has informed you that he or she wishes to use the Welsh language at the meeting; unless you conduct the meeting in Welsh without the assistance of a translation service.</p>

		<p><b>Rhaid cydymffurfio â safon 29A ymhob amgylchiad, ac eithrio:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ pan fo'r personau gwahoddedig a'r cyfarfod wedi eu lleoli tu allan i Gymru.</li> </ul>		<p><b>You must comply with standard 29A in every circumstance, except:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ where those invited persons and the meeting are located outside Wales.</li> </ul>
30	Cyflenwi Gwasanaethau	<p>Os byddwch yn trefnu cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd rhaid ichi ddatgan ar unrhyw ddeunydd sy'n ei hysbysebu, ac ar unrhyw wahoddiad iddo, fod croeso i unrhyw un sy'n bresennol ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod.</p> <p><b>Rhaid cydymffurfio â safon 30 ymhob amgylchiad, ac eithrio:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ pan fo'r cyfarfod a'r gynulleidfa a ragwelir wedi eu lleoli tu allan i Gymru.</li> </ul>	Service Delivery	<p>If you arrange a meeting that is open to the public you must state on any material advertising it, and on any invitation to it, that anyone attending is welcome to use the Welsh language at the meeting.</p> <p><b>You must comply with standard 30 in every circumstance, except:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ where the meeting and the anticipated audience are located outside Wales.</li> </ul>
31	Cyflenwi Gwasanaethau	<p>Pan fyddwch yn anfon gwahoddiadau i gyfarfod yr ydych yn ei drefnu sy'n agored i'r cyhoedd rhaid ichi eu hanfon yn Gymraeg.</p> <p><b>Rhaid cydymffurfio â safon 31 ymhob amgylchiad, ac eithrio:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ pan fo'r cyfarfod a'r sawl a wahoddir wedi eu lleoli tu allan i Gymru.</li> </ul>	Service Delivery	<p>When you send invitations to a meeting that you arrange which is open to the public, you must send the invitations in Welsh.</p> <p><b>You must comply with standard 31 in every circumstance, except:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ where the meeting and those invited are located outside Wales.</li> </ul>

32	Cyflenwi Gwasanaethau	<p>Os byddwch yn gwahodd personau i siarad mewn cyfarfod yr ydych yn ei drefnu sy'n agored i'r cyhoedd rhaid ichi -</p> <p>(a) gofyn i bob person a wahoddir i siarad a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(b) os yw'r person hwnnw (neu o leiaf un o'r personau hynny) yn eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw (os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).</p> <p><b>Rhaid cydymffurfio â safon 32 ymhob amgylchiad, ac eithrio:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ <b>pan fo'r personau gwahoddedig a'r cyfarfod wedi eu lleoli tu allan i Gymru.</b></li> </ul>	Service Delivery	<p>If you invite persons to speak at a meeting that you arrange which is open to the public you must -</p> <p>(a) ask each person invited to speak whether he or she wishes to use the Welsh language, and</p> <p>(b) if that person (or at least one of those persons) has informed you that he or she wishes to use the Welsh language at the meeting, provide a simultaneous translation service from Welsh to English for that purpose (unless you conduct the meeting in Welsh without a translation service).</p> <p><b>You must comply with standard 32 in every circumstance, except:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ <b>where those invited persons and the meeting are located outside Wales.</b></li> </ul>
33	Cyflenwi Gwasanaethau	<p>Os byddwch yn trefnu cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid ichi sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod, a rhaid ichi hysbysu'r rheini sy'n bresennol ar lafar yn Gymraeg -</p> <p>(a) bod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(b) bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael.</p>	Service Delivery	<p>If you arrange a meeting that is open to the public, you must ensure that a simultaneous translation service from Welsh to English is available at the meeting, and you must orally inform those present in Welsh -</p> <p>(a) that they are welcome to use the Welsh language, and</p> <p>(b) that a simultaneous translation service is available.</p>

		<p><b>Rhaid cydymffurfio â safon 33 ymhob amgylchiad, ac eithrio:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ <b>pan fo'r cyfarfod a'r gynulleidfa a ragwelir wedi eu lleoli tu allan i Gymru.</b></li> </ul>		<p><b>You must comply with standard 33 in every circumstance, except:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ <b>where the meeting and the anticipated audience are located outside Wales.</b></li> </ul>
34	Cyflenwi Gwasanaethau	<p>Os byddwch yn arddangos unrhyw ddeunydd ysgrifenedig mewn cyfarfod yr ydych yn ei drefnu sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid ichi sicrhau bod y deunydd hwnnw'n cael ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin unrhyw destun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.</p> <p><b>Rhaid cydymffurfio â safon 34 ymhob amgylchiad, ac eithrio:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ <b>pan fo'r cyfarfod a drefnir sy'n agored i'r cyhoedd wedi ei lleoli tu allan i Gymru.</b></li> </ul>	Service Delivery	<p>If you display any written material at a meeting that you arrange which is open to the public, you must ensure that that material is displayed in Welsh, and you must not treat any Welsh language text less favourably than the English language text.</p> <p><b>You must comply with standard 34 in every circumstance, except:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ <b>where the meeting arranged that is open to the public is located outside Wales.</b></li> </ul>
35	Cyflenwi Gwasanaethau	<p>Os byddwch yn trefnu digwyddiad cyhoeddus, neu'n ariannu o leiaf 50% o ddigwyddiad cyhoeddus, rhaid ichi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth hybu'r digwyddiad (er enghraifft, o ran y ffordd y mae'r digwyddiad yn cael ei hysbysebu neu y rhoddir cyhoeddusrwydd i'r digwyddiad).</p>	Service Delivery	<p>If you organise a public event, or fund at least 50% of a public event, you must ensure that, in promoting the event, the Welsh language is treated no less favourably than the English language (for example, in the way the event is advertised or publicised).</p> <p><b>You must comply with standard 35 in every circumstance, except:</b></p>

		<p><b>Rhaid cydymffurfio â safon 35 ymhob amgylchiad, ac eithrio:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ <b>pan fo'r digwyddiad cyhoeddus a'r gynulleidfa a ragwelir wedi eu lleoli tu allan i Gymru.</b></li> </ul>		<ul style="list-style-type: none"> <li>○ <b>where the public event and the anticipated audience are located outside Wales.</b></li> </ul>
36	Cyflenwi Gwasanaethau	<p>Os byddwch yn trefnu digwyddiad cyhoeddus, neu'n ariannu o leiaf 50% o ddigwyddiad cyhoeddus, rhaid ichi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn y digwyddiad (er enghraifft, mewn perthynas â gwasanaethau a gynigir i bersonau sy'n bresennol yn y digwyddiad, mewn perthynas ag arwyddion a arddangosir yn y digwyddiad, ac mewn perthynas â chyhoeddiadau sain a wneir ynddo).</p> <p><b>Rhaid cydymffurfio â safon 36 ymhob amgylchiad, ac eithrio:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ <b>pan fo'r digwyddiad cyhoeddus a'r gynulleidfa a ragwelir wedi eu lleoli tu allan i Gymru.</b></li> </ul>	Service Delivery	<p>If you organise a public event, or fund at least 50% of a public event, you must ensure that the Welsh language is treated no less favourably than the English language at the event (for example, in relation to services offered to persons attending the event, in relation to signs displayed at the event and in relation to audio announcements made at the event).</p> <p><b>You must comply with standard 36 in every circumstance, except:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ <b>where the public event and the anticipated audience are located outside Wales.</b></li> </ul>
37	Cyflenwi Gwasanaethau	<p>Rhaid i unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd neu ddeunydd hysbysebu yr ydych yn ei lunio gael ei lunio yn Gymraeg, ac os byddwch yn llunio'r deunydd hysbysebu yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y</p>	Service Delivery	<p>Any publicity or advertising material that you produce must be produced in Welsh, and if you produce the advertising material in Welsh and in English, you must not treat the Welsh language version less favourably than you treat the English language version.</p>

		<p>fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.</p> <p><b>Rhaid cydymffurfio â safon 37 ymhob amgylchiad, ac eithrio:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ pan fo'r deunydd cyhoedduswydd neu ddeunydd hysbysebu wedi eu llunio ar gyfer cynulleidfaoedd tu allan i Gymru yn unig.</li> </ul>		<p><b>You must comply with standard 37 in every circumstance, except:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ where the publicity or advertising material are produced for audiences located outside Wales only.</li> </ul>
38	Cyflenwi Gwasanaethau	<p>Rhaid i unrhyw ddeunydd yr ydych yn ei arddangos yn gyhoeddus gael ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg o'r deunydd yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.</p>	Service Delivery	<p>Any material that you display in public must be displayed in Welsh, and you must not treat any Welsh language version of the material less favourably than the English language version.</p>
40	Cyflenwi Gwasanaethau	<p>Rhaid i unrhyw ddogfennau at ddefnydd y cyhoedd yr ydych yn eu llunio gael eu llunio yn Gymraeg.</p> <p><b>Rhaid cydymffurfio â safon 40 mewn perthynas â'r canlynol:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Agendâu, cofnodion, cyflwyniadau a phapurau eraill ar gyfer cyfarfodydd, digwyddiadau a chynadleddau sy'n agored i'r cyhoedd</li> </ul>	Service Delivery	<p>Any documents that you produce for public use must be produced in Welsh.</p> <p><b>You must comply with standard 40 in relation to the following:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Agendas, minutes and other papers for meetings, events and conferences that are open to the public</li> <li>○ Agendas, minutes and other papers that are available to the public, which relate to management board or cabinet meetings</li> <li>○ Cabinet written statements</li> </ul>

		<ul style="list-style-type: none"> <li>○ Agendâu, cofnodion a phapurau eraill sydd ar gael i'r cyhoedd, sy'n ymwneud â phwyllgorau neu gyfarfod Cabinet</li> <li>○ Datganiadau ysgrifenedig Cabinet</li> <li>○ Polisiau, strategaethau, adroddiadau blynyddol a chynlluniau corfforaethol</li> <li>○ Datganiadau o fwriad polisi (SoPI)</li> <li>○ Llyfrynnau, Taflenni, pamffledi a chardiau</li> <li>○ Papurau Pwyllgor</li> <li>○ Papurau ymgynghori a chrynodeb o ymatebion</li> <li>○ Dogfennau Adrodd ar Benderfyniadau</li> <li>○ Pecynnau addysgol i ysgolion</li> <li>○ Gwybodaeth esboniadol i'r cyhoedd</li> <li>○ Papurau ymchwil a lunnir gan Weinidogion Cymru</li> <li>○ Aseidiadau Effaith y Gymraeg</li> </ul>		<ul style="list-style-type: none"> <li>○ Policies, strategies, annual reports and corporate plans</li> <li>○ Statements of Policy Intentions (SoPI)</li> <li>○ Brochures, leaflets, pamphlets or cards</li> <li>○ Committee papers</li> <li>○ Consultation papers and summary of responses</li> <li>○ Decision papers</li> <li>○ Educational packages for schools</li> <li>○ Explanatory information for the public</li> <li>○ Research papers produced by Welsh Ministers</li> <li>○ Welsh language Impact Assessments</li> <li>○ Licences and certificates</li> <li>○ Rules that apply to the public</li> <li>○ Statements to the press</li> <li>○ Maps</li> <li>○ Ministerial Evidence presented to Assembly Committees that aren't laid in accordance with the Standing Orders of the Assembly</li> <li>○ Ministerial Speeches published by Welsh Ministers</li> </ul>
--	--	---	--	--

		<ul style="list-style-type: none"> <li>○ Trwyddedau a Thystysgrifau</li> <li>○ Rheolau sy'n gymwys i'r cyhoedd</li> <li>○ Datganiadau'r Wasg</li> <li>○ Mapiau</li> <li>○ Tystiolaeth Weinidogol i Bwyllgorau'r Cynulliad na osodir yn unol â Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru</li> <li>○ Areithiau Gweinidogol a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru</li> <li>○ Newyddlenni</li> <li>○ Llwon a chadarnhad</li> <li>○ Holiaduron ac arolygon i'r cyhoedd</li> <li>○ Codau Ymarfer, Canllawiau, Cyfarwyddiadau a Gorchmynion a Chynlluniau a dogfennau eraill a lunnir gan Weinidogion Cymru nad ydynt yn is-ddeddfwriaeth ond a lunnir o dan Ddeddfiad</li> <li>○ Ymatebion Llywodraeth Cymru i Adroddiadau Pwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru</li> </ul>		<ul style="list-style-type: none"> <li>○ News-sheets</li> <li>○ Oaths and Pledges</li> <li>○ Questionnaires and Surveys to the public</li> <li>○ Codes of Practice, Guidelines, Guidance, Orders, Plans and other documents produced by Welsh Ministers that are not subordinate legislation, but are produced under an Enactment.</li> </ul>
--	--	---	--	---



		<b>○ Ymatebion Llywodraeth Cymru i ymgynghoriadau ac adroddiadau a gyhoeddwyd yn Gymraeg.</b>		
47	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn llunio dogfen at ddefnydd y cyhoedd, a phan nad oes safon arall wedi ei gwneud yn ofynnol ichi ei llunio yn Gymraeg, rhaid ichi ei llunio yn Gymraeg - (a) os yw pwnc y ddogfen yn awgrymu y dylid ei llunio yn Gymraeg, neu (b) os yw'r gynulleidfa a ragwelir, a'u disgwyliadau, yn awgrymu y dylid llunio'r ddogfen yn Gymraeg.	Service Delivery	If you produce a document for public use, and no other standard has required you to produce the document in Welsh, you must produce it in Welsh - (a) if the subject matter of the document suggests that it should be produced in Welsh, or (b) if the anticipated audience, and their expectations, suggests that the document should be produced in Welsh.
48	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn llunio dogfen yn Gymraeg ac yn Saesneg (pa un ai ydynt yn fersiynau ar wahân ai peidio), rhaid ichi beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.	Service Delivery	If you produce a document in Welsh and in English (whether separate versions or not), you must not treat any Welsh language version less favourably than you treat the English language version.
49	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg o ddogfen ar wahân, rhaid ichi sicrhau bod y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir bod y ddogfen hefyd ar gael yn Gymraeg.	Service Delivery	If you produce a Welsh language version and a separate English language version of a document, you must ensure that the English language version clearly states that the document is also available in Welsh.
50	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i unrhyw ffurflen yr ydych yn ei llunio at ddefnydd y cyhoedd gael ei llunio yn Gymraeg.	Service Delivery	Any form that you produce for public use must be produced in Welsh.

		<p><b>Rhaid cydymffurfio â safon 50 ymhob amgylchiad, ac eithrio:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ pan fo'r ffurflenni wedi eu llunio at ddefnydd y cyhoedd tu allan i Gymru yn unig.</li> </ul>		<p><b>You must comply with standard 50 in every circumstance, except:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ where the forms have been produced for public use outside Wales only.</li> </ul>
50A	Cyflenwi Gwasanaethau	<p>Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg o ffurflen ar wahân, rhaid ichi sicrhau bod y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir bod y ffurflen hefyd ar gael yn Gymraeg.</p> <p><b>Rhaid cydymffurfio â safon 50A ymhob amgylchiad, ac eithrio:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ pan fo'r ffurflenni wedi eu llunio at ddefnydd y cyhoedd tu allan i Gymru yn unig.</li> </ul>	Service Delivery	<p>If you produce a Welsh language version and a separate English language version of a form, you must ensure that the English language version clearly states that the form is also available in Welsh.</p> <p><b>You must comply with standard 50A in every circumstance, except:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ where the forms have been produced for public use outside Wales only.</li> </ul>
50B	Cyflenwi Gwasanaethau	<p>Os byddwch yn llunio ffurflen yn Gymraeg ac yn Saesneg (pa un ai ydynt yn fersiynau ar wahân ai peidio), rhaid ichi sicrhau nad yw'r fersiwn Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg, a rhaid ichi beidio â gwahaniaethu rhyngddynt o ran unrhyw ofynion sy'n berthnasol i'r ffurflen (er enghraifft mewn perthynas ag unrhyw ddyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r ffurflen neu mewn perthynas â'r amser a ganiateir ar gyfer ymateb i gynnwys y ffurflen).</p>	Service Delivery	<p>If you produce a form in Welsh and in English (whether separate versions or not), you must ensure that the Welsh language version is treated no less favourably than the English language version, and you must not differentiate between the Welsh and English versions in relation to any requirements that are relevant to the form (for example in relation to any deadline for submitting the form, or in relation to the time allowed to respond to the content of the form).</p>

		<p><b>Rhaid cydymffurfio â safon 50B ymhob amgylchiad, ac eithrio:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ pan fo'r ffurflenni wedi eu llunio at ddefnydd y cyhoedd tu allan i Gymru yn unig.</li> </ul>		<p><b>You must comply with standard 50B in every circumstance, except:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ where the forms have been produced for public use outside Wales only.</li> </ul>
51	Cyflenwi Gwasanaethau	<p>Os byddwch yn mewnosod gwybodaeth ar fersiwn Gymraeg o ffurflen (er enghraifft, cyn ei hanfon at aelod o'r cyhoedd er mwyn iddo wirio'r cynnwys neu er mwyn iddo lenwi gweddill y ffurflen), rhaid ichi sicrhau bod yr wybodaeth yr ydych yn ei mewnosod yn cael ei mewnosod yn Gymraeg.</p>	Service Delivery	<p>If you pre-enter information on a Welsh language version of a form (for example, before sending it to a member of the public in order for him or her to check the content or to fill in the remainder of the form), you must ensure that the information that you pre-enter is in Welsh.</p>
52	Cyflenwi Gwasanaethau	<p>Rhaid ichi sicrhau -</p> <p>(a) bod testun pob tudalen ar eich gwefan ar gael yn Gymraeg,</p> <p>(b) bod pob tudalen Gymraeg ar eich gwefan yn gweithredu'n llawn, ac</p> <p>(c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar eich gwefan.</p> <p><b>Rhaid cydymffurfio â safon 52 ymhob amgylchiad, ac eithrio:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ gwefannau sydd wedi eu cyhoeddi ar gyfer cynulleidfaoedd a ragwelir sydd wedi eu lleoli tu allan i Gymru.</li> </ul>	Service Delivery	<p>You must ensure that -</p> <p>(a) the text of each page of your website is available in Welsh,</p> <p>(b) every Welsh language page on your website is fully functional, and</p> <p>(c) the Welsh language is not treated less favourably than the English language on your website.</p> <p><b>You must comply with standard 52 in every circumstance, except:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ websites that have been published for anticipated audiences that are located outside Wales.</li> </ul>

55	Cyflenwi Gwasanaethau	<p>Os oes gennych dudalen Gymraeg ar eich gwefan sy'n cyfateb i dudalen Saesneg, rhaid ichi nodi'n glir ar y dudalen Saesneg bod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg, a darparu dolen uniongyrchol at y dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg gyfatebol.</p> <p><b>Rhaid cydymffurfio â safon 55 ymhob amgylchiad, ac eithrio:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ gwefannau sydd wedi eu cyhoeddi ar gyfer cynulleidfaoedd a ragwelir sydd wedi eu lleoli tu allan i Gymru.</li> </ul>	Service Delivery	<p>If you have a Welsh language web page that corresponds to an English language web page, you must state clearly on the English language web page that the page is also available in Welsh, and you must provide a direct link to the Welsh page on the corresponding English page.</p> <p><b>You must comply with standard 55 in every circumstance, except:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ websites that have been published for anticipated audiences that are located outside Wales.</li> </ul>
56	Cyflenwi Gwasanaethau	<p>Rhaid ichi ddarparu'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar bob tudalen ar eich gwefan yn Gymraeg.</p> <p><b>Rhaid cydymffurfio â safon 56 ymhob amgylchiad, ac eithrio:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ gwefannau sydd wedi eu cyhoeddi ar gyfer cynulleidfaoedd a ragwelir sydd wedi eu lleoli tu allan i Gymru.</li> </ul>	Service Delivery	<p>You must provide the interface and menus on every page of your website in Welsh.</p> <p><b>You must comply with standard 56 in every circumstance, except:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ websites that have been published for anticipated audiences that are located outside Wales.</li> </ul>
57	Cyflenwi Gwasanaethau	<p>Rhaid i bob ap yr ydych yn ei gyhoeddi weithredu'n llawn yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran yr ap hwnnw.</p>	Service Delivery	<p>All apps that you publish must function fully in Welsh, and the Welsh language must be treated no less favourably than the English language in relation to that app.</p>

58	Cyflenwi Gwasanaethau	<p>Pan fyddwch yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p> <p><b>Rhaid cydymffurfio â safon 58 ymhob amgylchiad, ac eithrio:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ <b>Cyfryngau cymdeithasol a ddefnyddir ar gyfer cynulleidfaedd a ragwelir sydd wedi eu lleoli tu allan i Gymru.</b></li> </ul>	Service Delivery	<p>When you use social media, you must not treat the Welsh language less favourably than the English language.</p> <p><b>You must comply with standard 58 in every circumstance, except:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ <b>Social media that is used for anticipated audiences that are located outside Wales.</b></li> </ul>
59	Cyflenwi Gwasanaethau	<p>Os bydd person yn cysylltu â chi drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg, rhaid ichi ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb).</p> <p><b>Rhaid cydymffurfio â safon 59 ymhob amgylchiad, ac eithrio:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ <b>Cyfryngau cymdeithasol a ddefnyddir ar gyfer cynulleidfaedd a ragwelir sydd wedi eu lleoli tu allan i Gymru.</b></li> </ul>	Service Delivery	<p>If a person contacts you by social media in Welsh, you must reply in Welsh (if an answer is required).</p> <p><b>You must comply with standard 59 in every circumstance, except:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ <b>Social media that is used for anticipated audiences that are located outside Wales.</b></li> </ul>
60	Cyflenwi Gwasanaethau	<p>Rhaid ichi sicrhau bod unrhyw beiriannau hunanwasanaeth sydd gennych yn gweithio'n llawn yn Gymraeg, a rhaid peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn perthynas â'r peiriant hwnnw.</p>	Service Delivery	<p>You must ensure that any self-service machines that you have function fully in Welsh, and the Welsh language must be treated no less favourably than the English language in relation to that machine.</p>
61	Cyflenwi Gwasanaethau	<p>Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys</p>	Service Delivery	<p>When you erect a new sign or renew a sign (including temporary signs), any text displayed on</p>

		arwyddion dros dro) rhaid i unrhyw destun sy'n cael ei arddangos ar yr arwydd gael ei arddangos yn Gymraeg (pa un ai ar yr un arwydd sy'n arddangos y testun cyfatebol yn Saesneg neu ar arwydd ar wahân); ac os yw'r un testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.		the sign must be displayed in Welsh (whether on the same sign as you display corresponding English language text or on a separate sign); and if the same text is displayed in Welsh and in English, you must not treat the Welsh language text less favourably than the English language text.
62	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro), a bod yr arwydd hwnnw'n cyfleu yr un wybodaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg, rhaid i'r testun Cymraeg gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.	Service Delivery	When you erect a new sign or renew a sign (including temporary signs) which conveys the same information in Welsh and in English, the Welsh language text must be positioned so that it is likely to be read first.
63	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi sicrhau bod y testun Cymraeg ar arwyddion yn gywir o ran ystyr a mynegiant.	Service Delivery	You must ensure that the Welsh language text on signs is accurate in terms of meaning and expression.
64	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i unrhyw wasanaeth derbynfa yr ydych yn ei roi ar gael yn Saesneg hefyd fod ar gael yn Gymraeg, a rhaid i unrhyw berson sydd am gael gwasanaeth derbynfa Cymraeg beidio â chael ei drin yn llai ffafriol na pherson sydd am gael gwasanaeth derbynfa Saesneg.	Service Delivery	Any reception service you make available in English must also be available in Welsh, and any person who requires a Welsh language reception service must not be treated less favourably than a person who requires an English language reception service.

67	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi arddangos arwydd yn eich derbynfa sy'n datgan (yn Gymraeg) fod croeso i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg yn y dderbynfa.	Service Delivery	You must display a sign in your reception which states (in Welsh) that persons are welcome to use the Welsh language at the reception.
68	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi sicrhau bod staff yn y dderbynfa sy'n gallu darparu gwasanaeth derbynfa Cymraeg yn gwisgo bathodyn sy'n cyfleu hynny.	Service Delivery	You must ensure that staff at the reception who are able to provide a Welsh language reception service wear a badge to convey that.
69	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i unrhyw hysbysiad swyddogol yr ydych yn ei gyhoeddi neu ei arddangos gael ei gyhoeddi neu ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg o'r hysbysiad yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohono.	Service Delivery	Any official notice that you publish or display must be published or displayed in Welsh, and you must not treat any Welsh language version of a notice less favourably than an English language version.
70	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn cyhoeddi neu'n arddangos hysbysiad swyddogol sy'n cynnwys y testun Cymraeg yn ogystal â'r testun Saesneg, rhaid i'r testun Cymraeg gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.	Service Delivery	When you publish or display an official notice that contains Welsh language text as well as English language text, the Welsh language text must be positioned so that it is likely to be read first.
71	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i unrhyw ddogfennau yr ydych yn eu cyhoeddi sy'n ymwneud â cheisiadau am grant gael eu cyhoeddi yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin fersiwn Gymraeg o'r dogfennau hynny yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohonynt.	Service Delivery	Any documents that you publish which relate to applications for a grant, must be published in Welsh, and you must not treat a Welsh language version of such documents less favourably than an English language version.

72	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn gwahodd ceisiadau am grant, rhaid ichi ddatgan yn y gwahoddiad y caniateir i geisiadau gael eu cyflwyno yn Gymraeg ac na fydd unrhyw gais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.	Service Delivery	When you invite applications for a grant, you must state in the invitation that applications may be submitted in Welsh and that any application submitted in Welsh will be treated no less favourably than an application submitted in English.
72A	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi beidio â thrin ceisiadau am grant a gyflwynir yn Gymraeg yn llai ffafriol na cheisiadau a gyflwynir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg pethau eraill, mewn perthynas â'r dyddiad cau ar gyfer cael ceisiadau, ac mewn perthynas ag amseriad rhoi gwybod i ymgeiswyr am benderfyniadau).	Service Delivery	You must not treat applications for a grant submitted in Welsh less favourably than applications submitted in English (including, amongst other matters, in relation to the closing date for receiving applications and in relation to the time-scale for informing applicants of decisions).
74	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn cael cais am grant yn Gymraeg, a bod angen cyfweild ag ymgeisydd fel rhan o'ch asesiad o'r cais rhaid ichi - (a) cynnig darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg er mwyn i'r ymgeisydd allu defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweiliad, a (b) os yw'r ymgeisydd yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweiliad, darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd at y diben hwnnw (os nad ydych yn cynnal y cyfweiliad yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).	Service Delivery	If you receive an application for a grant in Welsh and it is necessary to interview the applicant as part of your assessment of the application you must - (a) offer to provide a translation service from Welsh to English to enable the applicant to use the Welsh language at the interview, and (b) if the applicant wishes to use the Welsh language at the interview, provide a simultaneous translation service for that purpose (unless you conduct the interview in Welsh without a translation service).



75	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn rhoi gwybod i ymgeisydd beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â chais am grant, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os cyflwynwyd y cais yn Gymraeg.	Service Delivery	When you inform an applicant of your decision in relation to an application for a grant, you must do so in Welsh if the application was submitted in Welsh.
76	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i unrhyw wahoddiadau i dendro am gontract yr ydych yn eu cyhoeddi gael eu cyhoeddi yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin fersiwn Gymraeg o unrhyw wahoddiad yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohono.  <b>Rhaid cydymffurfio â safon 76 yn yr amgylchiadau isod:</b> <b>(a) os yw pwnc y gwahoddiad i dendro am gontract yn awgrymu y dylid ei gyhoeddi yn Gymraeg, neu</b> <b>(b) Os yw'r gynulleidfa a ragwelir, a'u disgwyliadau, yn awgrymu y dylid cyhoeddi'r gwahoddiad yn Gymraeg.</b>	Service Delivery	Any invitations to tender for a contract that you publish must be published in Welsh, and you must not treat a Welsh language version of any invitation less favourably than an English language version.  <b>You must comply with standard 76 in the following circumstances:</b> <b>(a) If the subject matter of the tender for a contract suggests that it should be produced in Welsh, or</b> <b>(b) If the anticipated audience, and their expectations, suggests that the document should be produced in Welsh.</b>
77	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn cyhoeddi gwahoddiadau i dendro am gontract, rhaid ichi ddatgan yn y gwahoddiad y caniateir i dendrau gael eu cyflwyno yn Gymraeg, ac na fydd tendr a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg.	Service Delivery	When you publish invitations to tender for a contract, you must state in the invitation that tenders may be submitted in Welsh, and that a tender submitted in Welsh will be treated no less favourably than a tender submitted in English.
77A	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi beidio â thrin tendr a gyflwynir yn Gymraeg yn llai ffafriol na thendr a	Service Delivery	You must not treat a tender for a contract submitted in Welsh less favourably than a tender submitted in

		gyflwynir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg pethau eraill, mewn perthynas â'r dyddiad cau ar gyfer cael tendrau, ac mewn perthynas ag amseriad rhoi gwybod i dendrwr am benderfyniadau).		English (including, amongst other matters, in relation to the closing date for receiving tenders, and in relation to the timescale for informing tenderers of decisions).
79	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn cael tendr yn Gymraeg, a bod angen cyf-weld â thendrwr fel rhan o'ch asesiad o'r tendr rhaid ichi - (a) cynnig darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg fel bod modd i'r tendrwr ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfweiliad, a (b) os yw'r tendrwr yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweiliad, darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd at y diben hwnnw (os nad ydych yn cynnal y cyfweiliad yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).	Service Delivery	If you receive a tender in Welsh and it is necessary to interview the tenderer as part of your assessment of the tender, you must - (a) offer to provide a translation service from Welsh to English to enable the tenderer to use the Welsh language at the interview, and (b) if the tenderer wishes to use the Welsh language at the interview, provide a simultaneous translation service for that purpose (unless you conduct the interview in Welsh without a translation service).
80	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn rhoi gwybod i dendrwr beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â thendr, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os cyflwynwyd y tendr yn Gymraeg.	Service Delivery	When you inform a tenderer of your decision in relation to a tender, you must do so in Welsh if the tender was submitted in Welsh.
81	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi hybu unrhyw wasanaeth Cymraeg a ddarperir gennych, a hysbysebu'r gwasanaeth hwnnw yn Gymraeg.	Service Delivery	You must promote any Welsh language service that you provide and advertise that service in Welsh.

82	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn darparu gwasanaeth yn Gymraeg sy'n cyfateb i wasanaeth yr ydych yn ei ddarparu yn Saesneg, rhaid i unrhyw gyhoeddusrwydd neu ddogfen yr ydych yn ei llunio, neu wefan yr ydych yn ei chyhoeddi, sy'n cyfeirio at y gwasanaeth Saesneg nodi bod gwasanaeth cyfatebol ar gael yn Gymraeg.	Service Delivery	If you provide a service in Welsh that corresponds to a service you provide in English, any publicity or document that you produce, or website that you publish, which refers to the English service must also state that a corresponding service is available in Welsh.
83	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn llunio, yn diwygio neu'n cyflwyno eich hunaniaeth gorfforaethol, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Service Delivery	When you form, revise or present your corporate identity, you must not treat the Welsh language less favourably than the English language.
84	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn cynnig cwrs addysg sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid ichi ei gynnig yn Gymraeg.	Service Delivery	If you offer an education course that is open to the public, you must offer it in Welsh.
85	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn cynnig cwrs addysg sy'n agored i'r cyhoedd, ac sydd wedi ei anelu'n benodol at bersonau sy'n 18 oed neu'n iau, rhaid ichi ei gynnig yn Gymraeg.	Service Delivery	If you offer an education course that is open to the public, and which is aimed specifically at persons aged 18 or under, you must offer it in Welsh.
87	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn cyhoeddi neges dros system annerch gyhoeddus, rhaid ichi wneud y cyhoeddiad hwnnw yn Gymraeg, ac os yw'r cyhoeddiad yn cael ei wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid i'r cyhoeddiad gael ei wneud yn Gymraeg yn gyntaf.	Service Delivery	When you announce a message over a public address system, you must make that announcement in Welsh and, if the announcement is made in Welsh and in English, the announcement must be made in Welsh first.